

## Codi strwythurau gwaith maen cymhleth

---

### Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â dehongli gwybodaeth, defnyddio arferion gwaith iach a diogel, dethol deunyddiau, cydrannau a chyfarpar a pharatoi a chodi bricwaith a blocwaith a/neu strwythurau o ddeunyddiau lleol, yn cynnwys bwâu, cromliniau, simneiau, nodweddion wedi'u curo ac addurnol

## Codi strwythurau gwaith maen cymhleth

---

### Meini prawf perfformiad

#### Rhaid i chi allu:

- P1 Dehongli'r wybodaeth a roddwyd yn ymwneud â'r gwaith ac adnoddau i gadarnhau ei bod yn berthnasol
- P2 Cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau swyddogol a roddwyd i wneud eich gwaith a chadw arferion gwaith iach a diogel
- P3 Dethol faint o adnoddau ac ansawdd yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y dulliau gwaith
- P4 Cydymffurfio gyda gweithdrefnau i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o amgylch
- P5 Cydymffurfio â'r wybodaeth gontract a roddwyd i wneud y gwaith yn effeithlon i'r fanyleb ofynnol
- P6 Cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a glustnodwyd, yn unol â'r rhaglen waith

Codi strwythurau gwaith maen cymhleth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

### Maen Prawf Perfformiad 1

\*

#### \*Dehongli gwybodaeth

G1 Y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd i wneud adroddiad am a chywiro **gwybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, a sut i'w gweithredu

G2 Y mathau o **wybodaeth**, eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

G3 Y gweithdrefnau sefydliadol i ddatrys **problemau** gyda'r **wybodaeth** a pham ei bod yn bwysig eu dilyn

### Maen Prawf Perfformiad 2

#### Arferion gwaith diogel

G4 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o **wybodaeth** am **ddeddfwriaeth berthnasol, cyfredol a chanllawiau swyddogol** a sut i'w defnyddio

G5 Sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

G6 Y **gweithdrefnau** diogelu sefydliadol ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

G7 Y drefn ar gyfer gwneud adroddiad am ddamwain a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

G8 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

### Maen Prawf Perfformiad 3

\*

#### \*Dethol adnoddau

G9 Nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yn gysylltiedig gyda'r **adnoddau** a sut y dylid unioni diffygion

G10 Sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut i wneud adroddiad am unrhyw **broblemau** yn gysylltiedig gyda'r **adnoddau**

G11 Y gweithdrefnau sefydliadol i ddewis **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut i'w defnyddio

G12 Y **peryglon** yn gysylltiedig gyda'r **adnoddau** a'r **dulliau gwaith** a sut i'w goresgyn

### Maen Prawf Perfformiad 4

\*

#### \*Lleihau'r risg o ddifrod

G13 Sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a diben diogelu

G14 Pam y dylid **cael gwared â gwastraff** yn ddiogel a sut i wneud hynny

## Maen Prawf Perfformiad 5

### Cyflawni manyleb y contract

G15 Sut i wneud **dulliau gwaith** i gyflawni'r fanyleb, a gwneud adroddiad am **broblemau**

G16 Sut i **gynnal-a-chadw** offer a chyfarpar

## Maen Prawf Perfformiad 6

### Amser a glustnodwyd

G17 Beth yw'r **rhaglen** ar gyfer y gwaith i gael ei wneud, yr amser a amcangyfrifwyd ac a glustnodwyd a pham y dylid cadw at amserlenni

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

### Maen Prawf Perfformiad 1

1 Dehongli darluniadau, asesiadau risg, datganiadau dull, manylebion, rhestri a gwybodaeth gwneuthurwyr yn cyfeirio at y gwaith i gael ei wneud

### Maen Prawf Perfformiad 2

2 Osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn ymwneud â'r dilynol:

- 2.1 dulliau gwaith
- 2.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
- 2.3 defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel
- 2.4 defnyddio a storio deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- 2.5 risgiau penodol i iechyd

### Maen Prawf Perfformiad 3

3 Dethol adnoddau yn gysylltiedig â'ch gwaith eich hun:

- 3.1 deunyddiau, cydrannau a gosodion
- 3.2 offer a chyfarpar

### Maen Prawf Perfformiad 4

- 4 Diogelu'r gwaith a'r ardal o amgylch rhag difrod
- 5 Lleihau difrod a chadw gofod gwaith glân
- 6 Cael gwared â gwastraff yn unol â deddfwriaeth

### Maen Prawf Perfformiad 5

- 7 Arddangos sgiliau gwaith i fesur, gwirio, marcio allan, gosod, lleoli a diogelu
- 8 Defnyddio a chynnal-a-chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol
- 9 Codi gwaith maen cymhleth mewn bric a bloc a neu ddeunyddiau lleol i gyfarwyddiadau gwaith a roddwyd, yn cynnwys ffurfio gorffeniadau uniad ar gyfer o leiaf tri o'r dilynol:
  - 9.1 bwâu (efelychu FfCCh – un o'r tri gofynnol)
  - 9.2 cynn simnai neu leoedd tân (efelychu FfCCh – un o'r tri gofynnol)
  - 9.3 walïau â nodweddion cyfwynebol, ymestynnol neu addurnol
  - 9.4 walïau cromlin o ran cynllun
  - 9.5 walïau sblae o ran cynllun

### Maen Prawf Perfformiad 6

- 10 Cwblhau eich gwaith eich hun o fewn yr amcangyfrif o amser a glustnodwyd i

ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cwsmer

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

### Cael gwared â gwastraff

1 Cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau sefydliadol, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

### Argyfyngau

2 Ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol â chaniatâd sefydliadol a sgiliau personol wrth ymwneud â:

2.1 tanau, arllwysiau, anafiadau

2.2 argyfyngau'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

### Peryglon

3 Y peryglon a ddynodir gan asesiad risg, dull gwaith, gwybodaeth dechnegol gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

### Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

4 Dynodir gan egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a diben pob math, sefyllfaoedd gwaith ac amgylchedd gwaith cyffredinol:

4.1 mesurau diogelu torfol

4.2 cyfarpar diogelu personol (PPE)

4.3 cyfarpar diogelu anadlol (RPE)

4.4 awyriad ecsôst lleol (LEV)

### Gwybodaeth

5 Darluniadau, asesiadau risg, datganiadau dull, manylebion, rhestrï, gwybodaeth gwneuthurwyr a rheoliadau'n ymwneud â llywodraethu adeiladau

### Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol

6 Mae hyn yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau a pheryglon iechyd posibl wrth weithio yn y gweithle, dan lefel y ddaear, ar uchder, gydag offer a chyfarpar, gyda deunyddiau a sylweddau, wrth symud/storio deunyddiau ac wrth godi a chario â llaw ac yn fecanyddol

### Cynnal-a-chadw

7 Gofal y gweithiwr o offer llaw a/neu offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol

## Codi strwythurau gwaith maen cymhleth

### Dulliau gwaith

8 Defnyddio gwybodaeth ar gyfer arferion gwaith iach a diogel, gweithdrefnau a sgiliau yn ymwneud â'r dull/ardal waith a'r deunyddiau a ddefnyddir i:

- 8.1 codi waliau ceudod a waliau soled yn defnyddio briciau, blociau traddodiadol ac uniad tenau a deunyddiau lleol
- 8.2 codi waliau'n defnyddio deunyddiau ac arddulliau lleol
- 8.3 gosod blociau (traddodiadol ac uniad tenau)
- 8.4 gweithio tros ysgwydd
- 8.5 ffurfio agoriadau ar gyfer drysau a ffenestri
- 8.6 gosod gosodion, crampiau a chlymau
- 8.7 ffurfio bwâu (garw, bwyellog, pwrpasol)
- 8.8 ffurfio waliau gyda nodweddion cyfwyneb, estynnol ac addurnol
- 8.9 ffurfio waliau cromlin mewn cynllun a gwirio gyda thramel, templedi a mowldiau bae
- 8.10 ffurfio waliau ar sblae mewn cynllun a gwirio gyda thempledi a mowldiau bae
- 8.11 ffurfio waliau cromlin a ramp ar ddrychiad a gosod allan a gwirio gyda thrameli a phroffiliau
- 8.12 ategu a chynnal strwythurau
- 8.13 cwblhau a symud gweithiau dros dro
- 8.14 ffurfio gorffeniadau uniad
- 8.15 dethol a gosod atgyfnerthiadau fertigol a llorweddol
- 8.16 lleoli rhwystrau atal lleithder
- 8.17 cymysgu morter
- 8.18 gweithio gydag offer a pheiriannau
- 8.19 defnyddio offer llaw, offer pŵer a chyfarpar
- 8.20 gweithio ar uchder
- 8.21 defnyddio cyfarpar mynediad
- 9 Gwaith tîm a chyfathrebu
- 10 Anghenion galwedigaethau eraill yn gysylltiedig â chodi strwythurau gwaith maen

### Problemau

- 11 Problemau'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gwaith:
  - 11.1 eich awdurdod eich hun i unioni
  - 11.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

### Rhaglen

- 12 Mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amcangyfrif o amser
- 13 Gweithdrefnau ar gyfer gwneud adroddiadau am amgylchiadau fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

### Diogelu gwaith



## Codi strwythurau gwaith maen cymhleth

---

14 Diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau cyffredinol y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd anffafriol

### **Adnoddau**

15 Deunyddiau, cydrannau a chyfarpar yn ymwneud â mathau, swm, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol a/neu arbenigol y dilynol:

15.1 briciau, blociau, mortar, fframiau, inswleiddiad, rhwystrau atal lleithder, lintel, gosodion a chlymau

15.2 offer llaw a/neu bŵer a chyfarpar.

16 Dulliau o gyfrif swm, hyd, arwynebedd a gwastraff yn gysylltiedig gyda'r dull/gweithdrefn i godi strwythurau gwaith maen cymhleth

### **Trefniadau diogelwch**

17 Safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

## Codi strwythurau gwaith maen cymhleth

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2012
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2017
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ConstructionSkills / SgiliauAdeiladu
RCU gwreiddiol	VR46
Galwedigaethau perthnasol	Bricwyr a Seiri maen
Cyfres/Set	Galwedigaethau Trywel, Sgiliau Treftadaeth
Geiriau Allweddol	Bwâu; Simneiau; Lleoedd tân; Gwaith curo; Nodweddion addurnol; Bricwaith; Blocwaith; Clymau wal; Gwaith sblae; Bwa garw; Bwa bwyellog; Bricwaith crwn